Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partion.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide Assembly Members and their staff with information and advice in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no liability is accepted for any reliance placed on them by third parties.

**Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**

**Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

**GORCHMYNION**

1. Mae'r Bil, fel y bwriedir ei gyflwyno, yn rhoi'r pwerau a ganlyn i Weinidogion Cymru i wneud y gorchmynion a ganlyn:-

1.1 .**Adran 19(7) -** Darparu gwasanaethau

O dan yr adran hon, gellir gwneud trefniadau i dderbyn gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a allai fod eu hangen ar Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni eu swyddogaethau priodol. Gellir gwneud y trefniadau hyn, ymysg eraill, gyda chorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy. Diffinnir "corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy" fel corff o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig neu wladwriaeth arall yn AEE ac a gymeradwywyd am y tro gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**Gweithdrefn** – fel y darparwyd gan adran 31- **Negyddol.**

Swyddogaethau gweinyddol yw hyn ac ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

1.2. **Adran 34 -** Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc

Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, trosiannol, darfodol, canlyniadol, arbed, achlysurol neu ddarpariaethau eraill fel y gwelant yn dda mewn cysylltiad â'r Bil neu i weithredu'r Bil yn llawn.

Mae'r pŵer yn cynnwys diwygio, diddymu a dirymu unrhyw ddeddfiad (diffinnir yn adran 33 fel unrhyw ddeddfiad gan gynnwys y Bil, unrhyw Ddeddf arall y Cynulliad neu Fesur y Cynulliad o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf y Cynulliad, Mesur y Cynulliad neu fel arall).

**Gweithdrefn –** fel y darparwyd gan adran 31 – **Cadarnhaol.**

O ystyried natur y pŵer, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

1.3. **Adran 36** – Cychwyn

Heblaw am adrannau 31, 36 a 37, cychwynnir y Bil drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Fel sy'n arferol, ni ragnodir gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn cychwyn.

**RHEOLIADAU**

2. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau i wneud rheoliadau.

Ceir gwelliant technegol i adran 39 (rheoliadau cyfrifon ac archwiliadau) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r gwelliant hwn, ymysg pethau eraill, yn rhoi'r pŵer gwneud rheoliadau *presennol* (yn ymwneud â chadw cyfrifon ac ati gan awdurdodau lleol) ar Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad. Gwneir newid canlyniadol i adran 39(5) (costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â throsedd o dan y rheoliadau), sy'n disodli cyfeiriad presennol at "archwilydd" gyda chyfeiriad at "Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru".

Y Gwasanaethau Cyfreithiol
28 Medi 2012